

Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.

FFA PORFFOR SIOP GOFFI SYMUDOL

Helo.

Kathy ydw i, perchennog fan goffi

'Purple Beans' (er, mae'n bosib y bod rhai ohonoch yn fy adnabod fel Mam Ernie – mae'n dipyn o gymeriad a dweud y gwir ac yntau ond yn 2 oed).

Fe symudais i'r Bont Rufeinig ychydig dros flwyddyn yn ôl, lle gefais groeso bendigedig a chyfeillgar gan drigolion y gymuned. I goroni'r cyfan fe lwyddais i fynd ati i sefydlu fy musnes fan goffi fy hun. Mae'n gyfle imi wneud rhywbeth rydw i'n ei fwynhau mewn ardal rydw i wrth fy modd gyda hi.

Mae'r fan 'Purple Beans' yn cynnig siop goffi symudol mewn lleoliadau lle na fyddai cerddwyr, beicwyr ac ymwelwyr i'r awyr agored yn disgwyl gweld cyfleusterau o gwbl fel arfer. Dim cyfleuster sy'n cynnig coffi barista (a diodydd poeth ac oer eraill ynghyd â thamaid o gacen) beth bynnag! Mae'n fendigedig gweld sut gall siocled poeth moeth a malws melys godi calon cerddwyr oer a glwyl!

Rydw i'n cynnig y gwasanaeth mewn sawl lle ar ochr y ffordd ac yng ngwersyllfa Cwmlanerch, ond hefyd gallwch drefnu i'r fan 'Purple Beans' ddod i ddigwyddiadau lleol. Mae croeso ichi gysylltu gyda mi os oes gennych

chi unrhyw ddigwyddiadau mewn golwg, os ydych yn trefnu teithiau cerdded ar gyfer grwpiau neu os oes gennych chi weithgareddau awyr agored wedi eu trefnu, lle byddwch yn elwa o rywbeth i dorri syched ar y ffordd! Rhif Ffôn isod neu os welwch chi fi o gwmpas yr ardal, galwch heibio am sgwrs a choffi.

Cariad mawr i bobl Dolwyddelan a'r cylch.

Ffon: 01690 750256

